Dyddiad cyhoeddi Rhagfyr 2007

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

National Institute for Health and Clinical Excellence

# Llawdriniaeth twll clo i dynnu tiwmorau parathyroid yn y frest

*Mae 'arweiniad Techlechyd' NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau llawfeddygol newydd mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio llawdriniaeth twll clo yn y GIG i drin pobl sydd â thiwmorau parathyroid yn y frest. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgôp i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio tiwmorau parathyroid na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi'r wybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 6.

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod llawdriniaeth twll clo ar gyfer tiwmorau parathyroid yn y frest yn gweithio. Yn ogystal, nid oes llawer iawn o dystiolaeth ar ba mor ddiogel ydyw. Am y rhesymau hyn, mae NICE wedi dweud os yw meddyg am ddefnyddio llawdriniaeth twll clo ar gyfer tiwmorau parathyroid yn y frest, dylai sicrhau ei fod yn cymryd camau ychwanegol i egluro'r ansicrwydd ynghyd â manteision tebygol a risgiau posibl y driniaeth. Dylai hyn ddigwydd cyn i’r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i’r driniaeth. Dylai'r claf gael y daflen hon ac unrhyw wybodaeth ysgrifenedig arall fel rhan o'r drafodaeth.

Dylid hefyd rhoi trefniadau arbennig ar waith ar gyfer monitro’r hyn sy’n digwydd pan gaiff person y driniaeth hon. Mae NICE yn gofyn i feddygon gasglu gwybodaeth am bob claf sy'n cael y llawdriniaeth a beth sy'n digwydd iddynt wedi'r llawdriniaeth.

Dylid cynnwys tîm o arbenigwyr mewn uned ysbyty arbenigol, gan gynnwys llawfeddyg thorasig sy'n brofiadol mewn llawdriniaeth twll clo, wrth benderfynu a yw'r driniaeth yn addas i glaf penodol. Dylid cadarnhau lleoliad y tiwmor gan ddefnyddio sgan cyn cynnal y driniaeth.

### Sylwadau eraill gan NICE

Os yw meddyg yn amau bod y tiwmor parathyroid yn y frest yn ganseraidd, gall effeithio ar y dechneg a ddefnyddir.

*Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer tiwmorau parathyroid yn y frest.*
*Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.*

## Llawdriniaeth twll clo ar gyfer tiwmorau parathyroid yn y frest

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Mae chwarennau parathyroid yn cynhyrchu hormon a elwir yn hormon parathyroid, a ddefnyddir i reoli'r lefelau calsiwm yn y corff. Mae gan y rhan fwyaf o bobl bedair chwarren parathyroid yn eu gyddfau, ond efallai y bydd gan rai un neu fwy o'r chwarennau hyn yn eu brestiau. Gall tiwmorau ddatblygu weithiau mewn chwarennau parathyroid. Nid ydynt yn ganseraidd fel arfer, ond gallent achosi problemau drwy gynhyrchu gormod o'r hormon parathyroid (‘gorbarathyroidedd’). Mae hyn yn cynyddu'r lefel o galsiwm yn y gwaed. Mae symptomau gorbarathyroidedd yn cynnwys blinder, iselder, dryswch, rhwymedd, poenau stumog, syched a'r angen i basio wrin yn fwy aml. Gall rhai gael poen neu doriadau esgyrn a gall rhai ddatblygu cerrig ar yr arennau.

Fel arfer tynnir tiwmorau parathyroid a ganfyddir yn y frest drwy lawdriniaeth fawr sy'n cynnwys agor y frest. Fodd bynnag, gellir defnyddio math o lawdriniaeth twll clo hefyd a elwir yn thoracosgopi i dynnu'r tiwmorau hyn.

Cyn y gellir cyflawni thoracosgopi, gwneir sgan i ganfod union leoliad y tiwmor. Rhoddir anesthetig cyffredinol i'r claf, a gwneir nifer o doriadau bach yn y frest. Rhoddir camera hyblyg i mewn i'r frest sy'n galluogi'r llawfeddyg i weld y tu mewn a rhoddir offer i mewn i dynnu'r chwarren sydd â'r tiwmor.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os yw eich meddyg wedi cynnig llawdriniaeth twll clo i chi ar gyfer tiwmor parathyroid yn y frest, dylai ddweud wrthych fod NICE wedi penderfynu bod y manteision a'r risgiau'n ansicr. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cyflawni'r driniaeth, ond dylai eich meddyg egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Dim ond ar ôl i'r drafodaeth hon gael ei chynnal y dylid gofyn i chi a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

Mae NICE wedi penderfynu hefyd bod angen mwy o wybodaeth am lawdriniaeth twll clo ar gyfer tiwmorau parathyroid yn y frest, felly mae wedi argymell y dylid casglu rhai manylion am bob claf a gaiff y driniaeth hon yn y DU. Caiff y manylion hyn eu cadw'n gyfrinachol ac ni fyddant yn cynnwys enwau cleifion. Dim ond i weld pa mor ddiogel yw'r driniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio y defnyddir y wybodaeth. Os byddwch yn penderfynu cael llawdriniaeth twll clo ar gyfer tiwmorau parathyroid yn y frest, gofynnir i chi gytuno i gofnodi eich manylion ar gronfa ddata electronig at y diben hwn. Bydd meddyg sy'n gofalu amdanoch yn rhoi eglurhad llawn i chi o ddibenion casglu'r data a pha fanylion a gaiff eu cadw (cedwir yr holl wybodaeth yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data). Gofynnir i chi lofnodi ffurflen gydsynio. Os na fyddwch yn cytuno i gofnodi eich manylion ar gronfa ddata electronig, ni fydd hyn yn eich rhwystro rhag cael y driniaeth.

## Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt o ddigwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth pe bai rhywbeth yn mynd o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar wyth astudiaeth o'r driniaeth hon.

### Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn wyth astudiaeth yn cynnwys cyfanswm o 23 o gleifion, cyflawnwyd llawdriniaeth twll clo i dynnu chwarennau parathyroid yn llwyddiannus ym mhob un o'r cleifion, ac ni fu rhaid i'r un ohonynt gael llawdrinaeth agored bellach ar y frest. Gwelwyd bod y lefelau calsiwm yng ngwaed y cleifion hyn yn normal yn y dyddiau a'r wythnosau ar ôl y llawdiniaeth. Nododd astudiaeth o un claf fod y lefelau calsiwm yn normal o hyd ar ôl tair blynedd.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr er mwyn helpu i benderfynu pa mor dda y mae llawdriniaeth twll clo yn gweithio, gellir ei asesu drwy'r newidiadau yn lefelau'r calsiwm a'r hormon parathyroid yn y gwaed ar ôl y llawdriniaeth, drwy edrych ar y feinwe a dynnwyd o dan ficrosgop (histoleg) a ph'un a oes angen i gleifion gael llawdriniaeth agored bellach ar y frest ar ôl y llawdriniaeth twll clo.

### Risgiau a phroblemau posibl

Mewn un astudiaeth, datblygodd un claf groniad bach o aer yn y frest (a elwir yn niwmothoracs) ar ôl y llawdriniaeth, ond diflannodd hyn ar ôl pythefnos. Mewn astudiaeth o dri o gleifion, cafodd un grygni ar ôl y driniaeth, y gallai fod wedi cael ei achosi gan niwed i un o'r nerfau i'r laryncs.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod y cymhlethdodau posibl yn cynnwys gwaedu, haint, poen yn y frest, newidiadau i rythm curiad y galon a niwed i du mewn i'r frest, a allai gynnwys niwed i bibellau gwaed pwysig (gwythiennau a rhydwelïau).

## Rhagor o wybodaeth am diwmorau parathyroid

Gall Galw Iechyd Cymru ar-lein (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan cychwyn da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich Gwasanaeth Cyngor a Chysylltiadau Cleifion (PALS) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi.

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut y mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'Tynnu tiwmorau parathyroid mediastinaidd yn thoracosgopig'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael ar www.nice.org.uk/HTG159*

*Gallwch archebu copïau wedi'u hargraffu o'r daflen hon drwy Linell Ymateb y GIG (ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch y cyfeirnod N1539).*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-7804-5 N1539 1P Dec 07

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2007. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of the Institute.